Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Buttercup**

**Meithrinfa Ddydd Buttercup**
**Neuadd Cenhadaeth**
**Ffwrnais**
**Llanelli**
**SA15 4HU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

18/01/2022

***Llywodraeth Cymru*** © Hawlfraint y Goron 2022.
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd Buttercup

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br><br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn cofrestredig | Michelle Howell |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y lleoliad |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac mae'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a’i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn ac wedi ymgartrefu yn y feithrinfa hon. Maent yn elwa o gael tîm eithriadol o sefydlog a chyson o bobl y maent yn dod i'w hadnabod yn dda.

Mae'r bobl sy'n cynnal y feithrinfa a'r staff gofal yn fedrus wrth ddarparu lleoliad meithringar sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Maent yn cynllunio ar gyfer dysgu a datblygiad plant ac yn gwneud defnydd da o dechnoleg i hysbysu rhieni yn dda ynglŷn â diwrnod eu plant. Yn gyffredinol, mae'r staff gofal yn dilyn polisïau'r lleoliad.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn ddiogel ac yn saff gan ddarparu awyrgylch cartrefol a chynnes. Mae'r adnoddau a'r offer o ansawdd da, yn lân ac yn drefnus. Mae'r amgylchedd awyr agored wedi'i gynllunio ac yn cael ei ddefnyddio'n dda. Mae'n cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer dysgu a datblygu.

Caiff y feithrinfa ei harwain a'i rheoli'n arbennig o dda. Mae'r bobl sy'n cynnal y feithrinfa a'r staff gofal yn gweithio'n agos iawn gyda'r rhieni a ddywedodd wrthym nad oeddent yn gallu canmol y staff ddigon.

## Llesiant

Mae gan y plant lais cryf yn y feithrinfa hon ac mae ganddynt ddewis da iawn o gyfleoedd ac adnoddau chwarae. Mae'r plant yn symud yn rhydd o un gweithgaredd i'r llall, a gofynnir iddynt beth hoffent ei wneud nesaf.

Mae'r plant yn hyderus i gyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd yn unol â'u hoedran a chyfnod eu datblygiad, gan eu bod yn gwybod y byddant yn cael ymateb. Er enghraifft, roedd babanod ifanc iawn yn gwenu pan ymatebodd aelod o staff gofal iddynt yn dweud gair newydd. Roedd y plant hŷn yn sgwrsio'n rhwydd â'r staff gofal ac â ni wrth iddynt ddilyn trefn y dydd.

Mae'r plant yn hapus iawn, wedi ymgartrefu ac wedi ymlacio yn y feithrinfa. Maent yn elwa o gael staff gofal cyson sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Maent yn meithrin cydberthnasau hoffus ac yn datblygu cysylltiadau cadarnhaol. Mae plant sy'n newydd i'r feithrinfa yn cael llawer o faldod a sylw gan y staff gofal. Mae'r gweithdrefnau ymgartrefu yn eu galluogi i fynychu ymweliadau byrrach tra'u bod yn dod i arfer â bywyd yn y feithrinfa ac yn unol â'u hanghenion unigol. Mae'r plant yn canu i'w hunain wrth iddynt osod numicon yn y drefn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o’r plant yn rhyngweithio â'i gilydd yn hynod o dda ac mae rhai plant iau yn dechrau dysgu pwysigrwydd rhannu, a chymryd eu tro. Mae’r plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd ac yn aros i adnoddau ddod ar gael iddynt. Roedd angen atgoffa rhai plant am yr angen i aros eu tro am y beic, ac aethant yn amyneddgar i chwarae yn rhywle arall nes bod y beic ar gael. Mae plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau, fel *“amser tacluso”* ac yn rhoi eitemau i gadw yn eu blychau.

Mae gan y plant ddiddordeb llawn yn eu chwarae a'u dysgu ac maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser. Mae babanod ifanc yn archwilio’u hamgylchedd yn rhydd ac mae plant hŷn yn elwa ar rai arferion strwythuredig yn ogystal â'r rhyddid i symud o gwmpas a dewis eu gweithgareddau. Roedd plant yn gweiddi'n llawn cyffro wrth iddynt rasio i lawr llethr bach ar eu beiciau.

Mae'r plant yn dysgu ac yn datblygu'n arbennig o dda ac yn defnyddio’u dychymyg i greu eu gweithgareddau eu hunain. Er enghraifft, chwaraeodd y plant gyda'r pum bowlen fetel yn y gegin fwd, gan wneud cacennau gyda thywod. Yna gosodwyd y bowlenni ar y llawr yn wynebu i lawr mewn rhes, gan greu 'pont', a cherdded yn ofalus drosti. Ymunodd plant eraill i gerdded ar draws y bont. Dywedodd y rhieni y buom yn siarad â nhw eu bod yn hapus iawn â chynnydd eu plentyn.

## Gofal a Datblygiad

Mae’r staff gofal yn gweithio'n dda iawn i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i ddarparu gofal o ansawdd uchel i’r plant, y rhan fwyaf o'r amser. Er enghraifft, maent yn cyflawni safonau uchel mewn perthynas ag arferion glanhau a hylendid ac mae mesurau cadarn ar waith ac yn cael eu dilyn i liniaru’r risgiau o Covid 19. Fodd bynnag, ni ddilynwyd y gweithdrefnau cywir ar gyfer newid cewyn yn ystod ein hymweliad. Codwyd hyn, a rhoddwyd mesurau ar waith ar unwaith. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cofnodi ac yn monitro unrhyw bryderon sydd ganddynt am blant ac maent hwy a'r staff gofal yn hyderus wrth egluro'r hyn y mae angen iddynt ei wneud os bydd unrhyw bryderon o'r fath yn codi. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau eu bod yn derbyn caniatâd rhieni i roi meddyginiaeth yn ôl yr angen ac yn storio unrhyw feddyginiaethau'n ddiogel.

Mae'r staff gofal yn meithrin cydberthnasau hynod gadarnhaol â’r plant. Maent yn rhyngweithio â phlant mewn ffordd gynnes a hamddenol ac maent yn gosod esiampl ragorol iddynt. Maent yn rhoi anogaeth a chanmoliaeth i'r plant. Mae polisi rheoli ymddygiad da ar waith er na welsom unrhyw achosion o ymddygiad heriol yn ystod ein hymweliad. Mae'r staff gofal yn cyfarch y plant â gofal a hapusrwydd gwirioneddol. Maent yn rhoi adborth cadarnhaol a hyfryd i rieni/gofalwyr am ddiwrnod eu plentyn.

Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn arbennig o dda. Maent yn uchel eu cymhelliant ac yn frwdfrydig ac yn cynnig cymorth cyson ac effeithiol i blant yn eu chwarae, eu dysgu a’u datblygiad. Mae staff gofal yn cydnabod pan nad yw plentyn yn ymddangos yn hollol fel nhw eu hunain. Maent yn siarad yn dyner iawn, gan gynnig cysur ac anogaeth iddo fwyta ei ginio. Mae’r staff gofal yn cynllunio gweithgareddau â ffocws i gynorthwyo dysgu a datblygiad plant bach a phlant hŷn, gan gynnwys ymgorffori’r Gymraeg yn y rhain. Mae’r staff gofal yn arsylwi plant tra maent yn chwarae ac yn olrhain eu datblygiad. Maent yn cofnodi eu profiadau o ddydd i ddydd gan ddefnyddio system electronig y gall rhieni hefyd gael mynediad iddi. Mae’r staff gofal yn derbyn hyfforddiant ychwanegol pan fo angen i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol ac yn gweithio'n agos iawn gydag asiantaethau allanol.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y bobl sy'n cynnal y lleoliad fesurau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y feithrinfa'n ddiogel i'r plant. Fodd bynnag, gwnaethom nodi risg bosibl yn ystod ein hymweliad, aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith i gael gwared ar y risg. Mae'r feithrinfa yn lân, yn daclus, yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac yn groesawgar iawn. Dywedodd y rhieni y buom yn siarad â nhw eu bod wrth eu bodd â'r naws gartrefol. Mae'r adeilad yn ddiogel y tu mewn a'r tu allan ac mae'r bobl sy'n cynnal y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r feithrinfa. Mae asesiadau risg effeithiol a gwiriadau diogelwch dyddiol ar waith. Mae'r bobl sy'n cynnal y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn cynnal arferion gadael mewn argyfwng rheolaidd, sy'n cael eu cofnodi. Mae mesurau cadarn ar waith mewn perthynas â lleihau'r risgiau o ran Covid 19.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd da iawn o'r gofod sydd ar gael. Mae cynllun yr amgylchedd, y tu mewn a'r tu allan, wedi'i gynllunio'n dda ac yn darparu mannau dysgu cyffrous i blant o bob oed eu harchwilio yn ogystal â mannau i gysgu neu orffwys. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy'n groesawgar, yn diwallu eu hanghenion ac yn darparu cyfleoedd chwarae cyfoethog.

Mae'r ardal allanol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, ac mae ystafell ddosbarth allanol wedi'i hadeiladu y tu ôl i'r adeilad. Dywedodd y bobl sy'n cynnal y lleoliad yn llawn cyffro wrthym am eu cynlluniau i greu ardaloedd chwarae a dysgu newydd.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd da iawn sy'n addas ar gyfer anghenion datblygiadol pob plentyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y bobl sy'n cynnal y lleoliad weledigaeth eithriadol ar gyfer y feithrinfa ac maent yn ei chyfleu'n effeithiol i'w staff gofal gan greu ethos cadarnhaol iawn. Maent yn arwain mewn modd sy'n sicrhau bod y feithrinfa yn cyflawni safonau eithriadol o uchel ac yn darparu gofal a chyfleoedd datblygu o ansawdd i'r plant. Mae ganddynt yr holl ddogfennau a chofnodion angenrheidiol ar gyfer cynnal y feithrinfa, y maent yn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. At ei gilydd, mae'r dogfennau yn drylwyr a chynhwysfawr er nad oedd y cofrestrau presenoldeb yn cofnodi pryd y gadawodd staff yr adeilad i gasglu neu ollwng plant yn yr ysgol. Ers yr arolygiad, mae'r bobl sy'n cynnal y feithrinfa wedi cadarnhau eu bod wedi diwygio eu cofrestrau i adlewyrchu hyn.

Mae'r bobl sy'n cynnal y feithrinfa yn gwerthuso ac yn myfyrio ar y feithrinfa a'u harferion yn gyson. Maent yn hawdd siarad â nhw ac yn agored i syniadau ar gyfer gwella. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn cynnal adolygiad ansawdd gofal bob blwyddyn sy'n ystyried barn rhieni. Er nad ydynt yn cynnwys barn y plant, mae'r plant yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio a rhoi eu barn a'u safbwyntiau am yr hyn maent ei eisiau.

Mae'r bobl sy'n cynnal y feithrinfa yn cefnogi staff gofal yn arbennig o dda. Maent yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd ac yn cynllunio ar gyfer datblygiad staff. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo rhai staff i astudio ar gyfer cymwysterau gofal plant uwch. Maent hefyd yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd i gyfnewid gwybodaeth a syniadau. Dywedodd yr holl staff gofal y siaradwyd â hwy eu bod yn hapus iawn yn gweithio yn y feithrinfa ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan reolwyr sy'n hawdd mynd atynt. Mae'r bobl sy'n cynnal y feithrinfa yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn.

Mae gan y bobl sy'n cynnal y feithrinfa bartneriaethau rhagorol â'r rhieni.  Maent yn hysbysu rhieni am gynnydd eu plant ar lafar, trwy ddogfennau olrhain a thrwy system adrodd electronig. Mae hyn yn eu galluogi hwy a staff gofal i gyfathrebu'n hawdd â rhieni o ddydd i ddydd a rhoi gwybod iddynt am yr hyn y mae eu plentyn wedi bod yn ei wneud mewn amser real. Mae'r holl rieni y siaradwyd â hwy yn hynod hapus yn y lleoliad a dywedasant wrthym na allant ganmol digon ar y feithrinfa, y bobl sy'n ei chynnal na'r staff gofal. Dywedodd un rhiant wrthym; *"Fel unrhyw riant, roedd gadael fy mhlentyn gyda darparwr gofal plant yn benderfyniad a phroses anodd i fynd drwyddi. O'r eiliad wnes i gyfarfod â'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad, teimlais ein bod mewn dwylo diogel ac y byddan nhw'n gofalu amdani mewn modd cynnes a charedig ac yn parhau i feithrin ei datblygiad mewn ffordd a oedd yn cyd-fynd â fy ffordd i o fagu fy mhlant. Rwy'n hynod ddiolchgar iddyn nhw ac i holl staff y feithrinfa am y gofal maen nhw'n ei roi i'm merch a'r cynhesrwydd a'r sicrwydd maen nhw'n ei roi i mi wrth i mi gydbwyso gofynion cystadleuol magu plant a gwaith."*

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Cynnwys barn plant yn yr adolygiad blynyddol o ansawdd gofal.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 28/02/2022'